

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu plwyf Llanuwchllyn yn grud i ddeffroad cenedlaetholdeb Cymreig a hefyd i draddodiad radicalaidd Cymru, sydd yn hanesyddol â chymeriad arbennig.

Yn y plwyf hwn y magwyd Robert Thomas, gweinidog ac Athro Diwinyddiaeth hefo'r Annibynwyr. Adnabuwyd ef fel Ap Vychan ar ôl iddo ennill y Gadair yn Eisteddfod y Rhyl yn 1864. Hanai ef o gyff enwog y 'Vychaniaid' o Gaergai yn yr un plwyf.

Delfrydodd fy hen daid, Robert Roberts, bersonoliaeth y fath arweinydd o gymydog a newidiodd ei gyfenw Roberts i Thomas. Gwerinwr yn ymroddi i galedwaith di-ben-draw oedd ef. Nid oedd ef yn fardd nac yn llenor, ond yr oedd yn ddyn Duw, yn drachtio heddi i'w enaid drwy Ei foli yn wastad.

Gyda dyfodiad Etholiad Cyffredinol 1859, ynghyd â chwmni bychan o denantiaid, aberthodd yr ychydig gysur materol ddaeth i'w ran ef a'i briod a'i blant yn ystod blynyddoedd y caledi mawr. Drwy eu haberth anhygoel y blagurodd yn eofn draddodiad radicalaidd Cymru yn Llanuwchllyn.

Yn ei gwmi yr oedd ewythr i Thomas Edward Ellis, aelod seneddol dros Feirionnydd a phrif chwip y blaid Ryddfrydol yn nes ymlaen. Hefyd gweddwr Michael Jones, gweinidog gyda'r Annibynwyr ac athro cyntaf Coleg Annibynnol y Bala. Mab iddi oedd Michael Daniel Jones, gweinidog eto hefo'r Annibynwyr a phrifathro Coleg Annibynnol y Bala. Ef oedd tad y deffroad cenedlaethol Cymreig.

Gyda mwyafrif bychan y daliodd William Watkin Edward Wynne ei sedd yn erbyn David Williams, yr Ymneilltuwr o Gastell Deudraeth.

Er hynny, cythruddwyd y Meistri Tir hyd erledigaeth tuag at y detholedig griw o denantiaid. Collodd fy hen daid denantiaeth Penbryn-coch, Llanycil ym mhlwyf Llanuwchllyn. Symudodd i dŷ unnos, y Rhos Ucha, a'i lawr pridd. Aeth i weithio fel gwas fferm i Lanfachreth. Cerddodd yn ddyddiol ddeng milltir yn ôl a blaen. Ei gyflog oedd grôt y dydd.

Dyna gyfyngdra ei gefndir o hynny ymlaen. Yn syfrdanol ni surodd ei ysbryd. Cadwodd ei urddas pendefigaidd naturiol. Daliodd yn bwylllog ei farn ac yn ddiymhongar yn ei holl ffyrdd. Daliodd hefyd i ddweud geiriau pert a bachog am bobl na byddai yn cydweld â hwy. Ond uwchben pob dim, daliodd i foliannu Duw hyd ddiwedd ei oes.

Mi Ganaf

Emyr Evans, Cheltenham



Taid yr awdur yn 60 oed (yn ei ddillad gwaith)

Yn sicr yr oedd ôl ei bersonoliaeth yn drwm ar gymeriad ei fab hynaf, Dafydd Thomas, y Wenallt, Rhyd-y-main, fy nhaid ar ochr fy mam.

Urddasol ei osgo a'i gerddediad, hyd yn oed ar y Foel, bu yn flaenor y gân yng Nghapel Annibynnol Rhyd-y-main am yn agos i drigain mlynedd. Yn sicr y mae amgylchiadau ei farwolaeth yn hynod o drawiadol ac, i mi, yn fythgofiadwy.

Yng Ngorffennaf 1935 y bu ef farw. Byr fu ei salwch olaf. Aeth i drwmwsg am ychydig ddyddiau. Yn sydyn, deffrôdd a lled-godi ei ben o'i obennydd. Yna, yn ei lais tenor mwyn, canodd emyn William

Williams:

Yn Eden, cofiaf hynny byth
Bendithion gollais rif y gwllith,
Syrthiodd fy nghoron wiw;
Ond buddugoliaeth Calfari
Enillodd fwy yn ôl i mi;
Mi ganaf tra fwy' byw.

Pallodd ei nerth ac ehododd ei gorff ysbrydol at yr Hwn a'i rhoes cyn iddo ganu'r ail benill.

Ffydd! dacw'r fan a dacw'r pren
Yr hoeliwyd arno Frenin nen,
Yn ufudd yn fy lle;
Dibennwyd rhwysg y ddraig ei hun,
Os clwyfwyd dau, gorchfygodd un
Ein Ceidwad oedd efe.

Ie, fe adawodd arnaf argraff fythgofiadwy!

Closiais at fy nheidiau yn



Taid yr awdur yn ei "ddillad parch" pan yn 84 oed a'i fab, John, yn sefyll y tu ôl iddo. Yn y cefndir mae Capel Rhydymain lle bu'n flaenor y gân am yn agos i drigain mlynedd.

ystod fy ngyrfa o chwe blynedd ym Mhrifysgol Rhydychen. Ar ôl blynyddoedd yn yr heldrin Almaenig yn nociau Llundain, ni ddychwelais at fy ngwaith mewn banc, ond wynebais y dasg o baratoi ar gyfer y Weinidogaeth Gristnogol.

Ar ganol fy mharatoad cefais afiechyd nad oedd gwellhad meddygol iddo. Yn ôl barn arbenigwr blaengar o niwrolegydd, nid oedd gennyf ond naw mis o'm heinioes ddaearol ar ôl. Tybiai fy mod yn dioddef o afiechyd 'motor neurone' ac nid 'multiple sclerosis'. Holais fy nheidiau yn eu nefol gartref.

'Beth wnaif rwan?'

Daeth yr ateb 'Dal ati i ymroi ac i weithio i'r eithaf a deued "Mi ganaf" yn benderfyniad gwreiddiol a phersonol i ti.'

Daliais ati i ganu yn awyrgylch Capel Coleg Nansfield sydd yn gynhaliol ac yn aesthetaidd-gyfriniol. Dyma ymatebiad Canon L.W. Grensted, Athro Ovid mewn Athroniaeth y Grefydd Gristnogol yn y Brifysgol:

'Os gellwch dderbyn arweiniad eich teidiau fe ymdawelaf. O wneuthur hynny, ni fyddwch yn fyr o ddim ar gyfer eich taith.'

Tywynnodd yr un goleuni Tragwyddol yn llachar-fwyn ar weundir Rhos Uchaf ac ar lawntiau cymen Rhydychen. Dyma oleuni Duw yng Nghrist.

AR WERTH

Geiriadur Prifysgol Cymru, Cyfrol 1 (A - Ffysier, 1950-1967 Caerdydd)

Hywel Tudur (Gol.) *Gweithiau Barddonol Eben Fardd* (Bangor, J.E. Douglas, 1894)

Cysyllter â D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW (0151 724 1989)

YN EISIAU

Copi sol-ffa o *Emynau'r Eglwys* (gol. W.H. Harris a W.H. Harris) c.1951.

Cysyllter ar 01291 690517

Tir Newydd, Rhif 1,2,4,5

Cysyllter â Richard Wyn Jones, 10 Stryd y Tollty, Aberystwyth SY23 1JR. Ffôn: (01970) 627574.

Allwedd y Tannau, Rhifau 2, 4, 7; *Blodau'r Ffair*, Rhifau 41, 42; *Tegwch y Bore*, Kate Roberts; *Llên y Llannau*, 1964, 1965, 1967, 1969, 1974, 1978, 1979. Cysyllter ar (01492) 641107

AR GAEL AM DDIM.

Oni dderbynnir rhoddion at achosion da. Nifer o lyfrau a rhai cylchgronau. Er enghraifft: set gyflawn o *Barn*. Cysyllter â Robin Gwyndaf, Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd CF5 2AL. Ffôn: 029 20 566249 (cartref)